7



# Cylchoedd Bywyd a Graffau Ffawd

Addasiad
Anifeiliaid a Phlanhigion

## Bwriad Dysgu

- Dysgu prif gamau cylch bywyd y Llyffant.

## Sgiliau Cwricwlwm Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Gwyddoniaeth** | Cyfathrebu'n glir drwy siarad, ysgrifennu, tynnu lluniau, diagramau, tablau, siartiau bar, graffiau llinell, fideos a phecynnau TGCh gan ddefnyddio geirfa wyddonol berthnasol. |
| | Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny. |
| **Mathemateg** | Casglu, cynrychioli a dehongli data. |

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

* Astudio cylch bywyd y Llyffant - drwy edrych ar luniau a thrafod yr hyn mae'r plant yn ei wybod eisoes.
* Deall natur weledol graff llinell.

## Adnoddau

Copïau o'r graff ffawd wag a'r datganiadau ar gyfer pob grŵp

# Cylchoedd Bywyd a Graffau Ffawd

**Amlinelliad o'r Wers**

- Chwyddo'r graff i faint A3 a rhoi copi i bob grŵp ynghyd â'r cardiau datganiad.
- Esbonio y dylai'r grwpiau geisio rhoi'r datganiadau mewn trefn yn gyntaf, i adrodd hanes cylch bywyd y Llyffant.
- Dylent ystyried pa ddatganiadau sy'n 'llai ffodus' neu'n negyddol.
- Ar ôl i'r grwpiau benderfynu ar y drefn, dylent rifo'r datganiadau.
- Yna gallant gytuno ble i roi croes ar y llinell briodol ar y graff.
- Wedyn gall y grwpiau gysylltu'r pwyntiau a chael trafodaeth. Mae gofyn i un grŵp gyflwyno eu syniadau a'u meddyliau yn helpu'r grwpiau eraill i ganolbwyntio.
- Mae'n bwysig drafod yr hyn mae'r plant yn ei feddwl yn ogystal â chynnwys y wers.
- Gallech drafod safbwyntiau anifeiliaid eraill yn y gweithgaredd - er enghraifft, gofyn i'r disgyblion dynnu llinell ffawd Crëyr mewn lliw gwahanol. Gallent ddarganfod bod ffawd y Crëyr yn well pan mae'r Llyffant yn benbwl!


**Gweithgareddau Estyn Posibl**

Gofyn i grwpiau ysgrifennu mwy o ddatganiadau ffawd ar gyfer y Llyffant.

Gall grwpiau ddefnyddio'r datganiadau enghreifftiol i greu gêm fwrdd yn seiliedig ar nadredd ac ysgolion - mae datganiadau ffodus yn hopio 3 sgwâr ymlaen ac mae rhai anffodus yn mynd i lawr yr ysgol!

Beth fyddai'n digwydd pe byddai Llyffantod yn diflannu?

Sut gallwn ni ddiogelu Llyffantod?


Ffawd
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
Amser

# Datganiadau

| | |
|---|---|
| Un ŵy mewn cadwyn o gannoedd ydych chi. Mae pysgod barus yn loetran. | Rydych chi'n tyfu coesau, yn colli'ch cynffon ac yn cropian allan o'r dŵr. |
| Rydych chi'n deor yn ddiogel yn benbwl. | Wrth i'r gaeaf droi'n wanwyn, mae'r gwybed yn dechrau deor.<br>Rydych chi'n edrych ymlaen at bryd o fwyd enfawr. |
| Mae'r haul wedi peri i algâu dyfu yn y pwll. Mae gennych ddigon o algâu ffres, gwyrdd a llysnafeddog i'w bwyta. | Mae canu yn eich helpu i ddod o hyd i gymar. Rydych chi'n dodwy ac yn ffrwythloni 350 o wyau. |
| Mae crëyr mawr yn hedfan uwchben. Cadwch yn llonydd (os symudwch gall eich bwyta!). | Yn y diwedd mae 75 o'ch wyau'n goroesi ac yn deor yn benbyliaid. |
| Mae'r tywydd yn newid ac mae'n rhy boeth a sych i chi fwyta. Rydych chi'n colli pwysau. | Mae'n gynnar yn y gwanwyn ac rydych chi'n dychwelyd i'r pwll i fridio. |

**Gêm Llyffantod - datganiadau enghreifftiol** (defnyddiwch y rhain neu gallwch greu rhai eich hunan)

Os ydych chi'n glanio ar un o'r sgwariau canlynol, dilynwch y cyfarwyddiadau cyn i'r chwaraewr nesaf daflu'r dis.

1. Un ŵy mewn cadwyn o gannoedd ydych chi. Mae pysgod rheibus yn loetran. Os nad ydych yn gwingo yn eich ŵy tryloyw efallai na fyddant yn eich bwyta.
3. Mae'n rhewi yn ystod y nos. Mae rhai o'r wyau'n cael eu dinoethi ac nid ydynt yn goroesi. Hopiwch un lle yn ôl.
4. Rydych chi'n deor yn ddiogel yn benbwl. Symudwch ddau le arall ymlaen.
6. Mae'r haul wedi peri i algâu dyfu yn y pwll. Mae gennych ddigon o algâu ffres, gwyrdd a llysnafeddog i'w bwyta. Symudwch un lle ymlaen.
8. Rydych chi'n bwyta'n hapus eich byd pan mae chwilen blymio fawr yn ymddangos ac yn rhedeg ar eich ôl. Ewch un lle yn ôl i guddio.
10. Rydych chi'n tyfu coesau, yn colli'ch cynffon ac yn cropian allan o'r dŵr. Hopiwch ddau le arall ymlaen.
11. Mae Crëyr mawr yn hedfan uwchben. Rhaid i chi aros yn llonydd (os ydych chi'n symud, gall eich bwyta) a cholli tro.
13. Mae'r tywydd yn newid ac mae'n rhy boeth a sych i chi fwyta. Rydych chi'n colli pwysau. Hopiwch un lle yn ôl.
14. Mae patrwm y tywydd yn newid eto. Mae glaw trwm yn rhoi mwy o ddŵr yn y pwll. Hopiwch un lle ymlaen.
16. Mae glaw trwm yn golchi olew i'r pwll. Mae'n lladd rhai Llyffantod eraill sy'n methu â dianc mewn pryd. Hopiwch un lle ymlaen.
19. Mae'n dechrau mynd yn oer iawn. Twriwch i mewn i'r nyth o ddail a chysgwch am amser hir. Collwch un tro wrth i chi aeafgysgu.
22. Mae'r gaeaf yn troi'n wanwyn. Wrth i'r tymheredd gynyddu, rydych chi'n dechrau ymarfer crawcian (rhaid crawcian 5 gwaith cyn i chi gael tro arall).
23. Mae'r gwybed yn dechrau deor. Rydych chi'n edrych ymlaen at bryd o fwyd enfawr. Hopiwch un lle ymlaen.
26. Mae lori plaleiddiaid yn chwistrellu'ch pwll i ladd y gwybed. Mae'r chwistrell yn llosgi'ch croen sensitif ac yn eich gadael heb fwyd. Hopiwch un lle yn ôl.
28. Mae'n gynnar yn y gwanwyn ac rydych chi'n dychwelyd i'r pwll i fridio. Wrth groesi'r ffordd, mae pump o'ch ffrindiau'n cael eu taro gan gar. Rydych chi'n hopio dau le yn ôl i ddiogelwch.
30. Yn sydyn mae nifer o bobl yn cyrraedd ac yn eich cario chi a thri llyffant arall yn ddiogel i ochr arall y ffordd brysur (symudwch ymlaen tri lle).
33. Mae canu yn eich helpu i ddod o hyd i gymar. Rydych chi'n dodwy ac yn ffrwythloni 350 o wyau. Cymerwch seibiant a cholli tro.

35. Mae pysgod a chwilod plymio yn bwyta mwy na hanner eich wyau. Hopiwch un lle yn ôl.

37. Mae'r gwybed Mai yn deor yn y tywydd twym. Rydych chi'n bwyta dwsin mewn ychydig o funudau. Rydych chi'n rhy lawn i symud. Arhoswch i'w treulio a cholli tro.

39. Mae grŵp o bobl leol yn atal eich pwll rhag cael ei ddraenio ar gyfer datblygiad tai. Hopiwch un lle arall ymlaen.

40. Yn y diwedd mae 75 o'ch wyau'n goroesi ac yn deor yn benbyliaid. Hopiwch un lle arall ymlaen.

42. Mae gwlyptir a warchodir yn hidlo llygredd cyn iddo gael ei olchi i'ch pwll. Hopiwch un lle ymlaen.

43. Rydych chi'n dianc rhag pig crëyr barus. Plymiwch i'r gwaelod i guddio a cholli tro.

45. Mae 30 o'ch penbyliaid yn osgoi cael eu bwyta gan bysgodyn a ryddhawyd gan rywun i'r pwll.

Hopiwch un lle ymlaen.

46. Yn sydyn mae llaw rhywun yn eich tynnu allan o'r dŵr. Ar ôl eich cusanu, mae'n eich rhoi chi'n ôl yn y dŵr yn dyner. Diolch byth bod eu dwylo'n wlyb a bod eich croen sensitif heb ei frifo. Nofiwch un lle ymlaen ac ymlaciwch.

48. Mae 20 o'ch 350 o wyau yn goroesi, yn tyfu coesau ac yn gadael y dŵr. Hopiwch un lle arall ymlaen.

50. Llongyfarchiadau! Rydych chi wedi cwblhau'r cylch bywyd!